Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
Ebost / Email: info@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Dyddiad: 2 Mawrth 2015
Ein cyf: HVT/2284/fgb


Annwyl Darren

Yn ddiweddar, buom yn trafod y sefyllfa bresennol o ran adroddiadau astudio gwerth am arian ac adroddiadau eraill sy'n debygol o gael eu cwblhau er mwyn helpu i lywio blaengynllun gwaith y Pwyllgor. Deallaf fod y Pwyllgor yn debygol o ystyried ei raglen ar gyfer tymor yr haf yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth.

Rwyf wedi ymrwymo i ddarparu rhwng 10 a 12 o gynhyrchion bob blwyddyn i gefnogi gwaith y Pwyllgor. Er na chraffwyd yn fanwl ar bob un, ers dechrau 2014-15, rwyf wedi cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor ar 14 o destunau gwahanol. Roedd hyn yn cynnwys dau adroddiad ar wahân ond cysylltiedig ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, sydd hefyd wedi darparu tystiolaeth i gefnogi ymchwiliad gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Mae'r adroddiadau hyn yn ychwanegol at adroddiadau cryno eraill ar faterion llywodraeth leol nad yw'r Pwyllgor wedi'u hystyried. Ar yr un pryd, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn parhau i gefnogi gwaith y Pwyllgor a'r tîm clercio yn weithredol**.** Adroddais yn ôl wrthych hefyd yn ddiweddar ar faterion a oedd yn ymwneud â buddsoddiad Llywodraeth Cymru ym Masn y Rhath, a'r Cynllun Mentora Cymheiriaid sy'n Camddefnyddio Sylweddau. Cafwyd gwaith archwilio sylweddol yn sail ar gyfer y ddau ymateb.

Ddechrau mis Tachwedd 2014, cyflwynais femorandwm i'r Pwyllgor ar drefniadau llywodraethu'r GIG. Ar gais y Pwyllgor, mae'r memorandwm hwnnw'n cael ei ehangu i adlewyrchu deunydd ychwanegol am strwythurau rheoli a llywodraethu cyrff y GIG. Cafwyd bod hyn ychydig yn fwy cymhleth nag a ragwelwyd yn wreiddiol, gan fod rhai o gyrff y GIG ar ganol newid strwythurol. Mae'r newidiadau i'r memorandwm yn debygol o roi dadansoddiad cryno o'r wybodaeth yr ydym wedi'i chasglu, yn hytrach nag eglurhad manwl o strwythur pob sefydliad, ond bydd yn dal angen i ni wirio cywirdeb ffeithiol yn gyflym gyda chyrff unigol y GIG. Rwyf yn disgwyl cwblhau'r memorandwm erbyn diwedd mis Mawrth 2015. Deellais o ddeialog blaenorol mai'r dewis oedd cyhoeddi'r memorandwm terfynol ochr yn ochr ag adroddiad y Pwyllgor ei hun yn dilyn ei ymchwiliad i drefniadau llywodraethu'r GIG, sydd yn dal heb ei gwblhau.

Rwyf wedi atodi trosolwg o'r sefyllfa o ran y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Fel y gwelwch, rwyf yn rhagweld y ceir llif reolaidd a chyson o ddeunydd i'w ystyried gan y Pwyllgor. Ar hyn o bryd, mae'n anodd ymrwymo i ddyddiad cyhoeddi ar gyfer peth o'r gwaith sydd ar y gweill, er bod y gwaith hwnnw'n mynd rhagddo'n dda. Byddwn yn fodlon rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf ichi ynghylch hyn ar 17 Mawrth.

Yn ychwanegol at y corff hwn o waith, ac yn rhan o'm rhaglen o waith archwilio ym maes llywodraeth leol, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi adolygu materion sy'n ymwneud â thaliadau tai dewisol i bobl sy'n derbyn budd-dal tai, ond ac arnynt angen cymorth ychwanegol gyda chostau rhent neu dai. Byddaf yn rhannu copi o gynnyrch y gwaith hwnnw â'r Pwyllgor er mwyn goleuo'r ymchwiliad a gynlluniwyd gan y Pwyllgor yn dilyn fy adroddiad diweddar *Rheoli Effaith Newidiadau Diwygio Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru*. Ac, wrth gwrs, mae'n bosibl y bydd cynnyrch ychwanegol yn deillio o'm rhaglenni o waith archwilio lleol lle ceir materion neu ddysgu sy'n berthnasol ar raddfa ehangach.

Mae rhai astudiaethau'n cymryd mwy o amser i'w cwblhau nag a ragwelais y tro diwethaf i mi roi'r newyddion diweddaraf ddechrau mis Rhagfyr 2014, ond mae astudiaethau eraill yn mynd rhagddynt fel y'u cynlluniwyd. Ac, fel y gwyddoch, gall fod yn amhosib rhagweld yr amser sydd ei angen i mi glirio fy adroddiadau gyda swyddogion perthnasol, yn enwedig lle caiff unrhyw drydydd partïon eraill perthnasol eu henwi yn yr adroddiad. Rwyf hefyd wedi sôn cyn hyn fy mod yn bwriadu gweithredu embargo gwirfoddol fydd yn atal cyhoeddi adroddiadau am bedair wythnos cyn yr Etholiad Cyffredinol, yn yr un modd ag y byddwn yn ei wneud cyn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol. Bu hynny'n arfer gan fy rhagflaenwyr ac ar draws cyrff archwilio cyhoeddus eraill y DU. Mae Audit Scotland yn bwriadu gwneud rhywbeth tebyg, a deallaf y bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gweithredu cyfnod embargo hwy o 20 Mawrth hyd at Araith y Frenhines ar ôl yr Etholiad Cyffredinol. Mae trefnu'r embargo gwirfoddol o gymorth i atgyfnerthu fy safbwynt gwleidyddol diduedd, ond bwriadaf gyhoeddi sawl adroddiad yn gymharol fuan ar ôl yr Etholiad Cyffredinol.

Yn olaf, os bydd amserlen y Pwyllgor yn caniatáu, rwyf yn gobeithio cynnal trafodaeth yn fuan â'r Pwyllgor ynghylch astudiaethau gwerth am arian posibl yn y dyfodol. Gallai'r amserlen ar gyfer astudiaethau newydd olygu na adroddir arnynt tan ar ôl etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2016, pan fydd Pwyllgor newydd wedi'i ffurfio. Fodd bynnag, ceir rhai testunau newydd, yn fy nhyb i, y dylid craffu arnynt i ddibenion archwilio yn y tymor byr Ar yr adeg hon, byddai'n fuddiol nodi a oes testunau neilltuol y byddai'r Pwyllgor yn awyddus i'w harchwilio cyn diwedd y pedwerydd Cynulliad, ac y gallwn i geisio ymdrin â hwy, naill ai drwy femorandwm ffeithiol neu drwy archwiliad gwerth am arian cul ei ffocws. Er enghraifft, yn ddiweddar mynegodd y Pwyllgor ddiddordeb mewn ystyried Cronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru. Byddaf yn rhoi rhywfaint o gyngor

ynglŷn â'r Gronfa Buddsoddi i Arbed cyn cyfarfod y Pwyllgor ar 17 Mawrth. Yn rhan o unrhyw waith craffu sy'n deillio o'm hadroddiad diweddar *Rheoli Ymadawiadau Cynnar yng Ngwahanol Gyrff Cyhoeddus Cymru*, ceir cyfle i'r Pwyllgor fynd ar drywydd y defnydd o gyllid Buddsoddi i Arbed er mwyn ariannu cynlluniau ymadael yn gynnar mewn cyrff cyhoeddus.

Yn gywir,



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

*Amg: Atodiad - Gwaith ar y Gweill*

# Atodiad - Gwaith ar y Gweill

| Testun | Amserlen Cyhoeddi *(amcangyfrif presennol)* | Sylwebaeth |
|---|---|---|
| **Memorandwm llywodraethu'r GIG** | Mawrth 2015 | Yn dilyn newidiadau i'n drafft gwreiddiol i adolygu a chynnwys deunydd ychwanegol ar gais y Pwyllgor, rwyf yn disgwyl cwblhau fy memorandwm erbyn diwedd mis Mawrth 2015. Ni fu cywain yr holl wybodaeth a geisiwyd mor syml ag a ragwelwyd yn wreiddiol, a hynny am y rhesymau a amlinellwyd yn fy llythyr cyflwyno. |
| **Llywodraeth leol - gwytnwch ariannol** | Ebrill 2015 | Wrth roi'r newyddion diweddaraf ym mis Rhagfyr 2014, nodais fy mod yn disgwyl cyhoeddi'r adroddiad hwn erbyn canol mis Chwefror 2015. Rwyf bellach yn disgwyl cyhoeddi fy adroddiad erbyn dechrau mis Ebrill, ac o flaen yr embargo cyn-etholiadol. Cafwyd mymryn o oedi gan fy mod yn dymuno cynnwys cymariaethau â sefyllfa llywodraeth leol yn Lloegr. Cymerwyd mwy o amser na'r disgwyl i ganfod a chynnwys yr wybodaeth gymharol hon. |
| **Presgripsiynu gan feddygon teulu (briffio)** | Ebrill 2015 | Ers cwblhau ac adrodd ar fy ngwaith archwilio lleol ym maes presgripsiynau gan feddygon teulu, rwyf wedi datblygu a chyflwyno gwaith archwilio lleol pellach ar reoli meddyginiaethau yn y sector ysbytai. Gallai fod o werth i mi gyfuno fy nghanfyddiadau ar ffurf un ddogfen genedlaethol sy'n rhoi crynodeb o berfformiad byrddau iechyd wrth reoli meddyginiaethau ar draws holl sbectrwm eu cyfrifoldebau, ac yn enwedig wrth reoli'r rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd, ond ni fyddwn mewn sefyllfa i lunio adroddiad o'r fath tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, rwyf yn gwerthfawrogi y bydd y Pwyllgor yn awyddus i weld y negeseuon allweddol fydd yn codi o'm gwaith archwilio lleol ar bresgripsiynu mewn gofal sylfaenol, ac felly'n cynnig y dylid llunio papur briffio byr i'r Pwyllgor i'r perwyl hwn. Bydd y papur yn cael ei lunio cyn yr embargo cyn-etholiadol. |

| Testun | Amserlen Cyhoeddi *(amcangyfrif presennol)* | Sylwebaeth |
|---|---|---|
| **Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf** | Mai 2015 | Mae'r adroddiad hwn ar hyn o bryd yn cael ei glirio gan Lywodraeth Cymru, er y bydd angen i drydydd partïon ei glirio ymhellach wedi hynny, sef BT yn benodol.<br><br>Fel y nodwyd yn fy niweddariad ym mis Rhagfyr 2014, rwyf ar hyn o bryd yn anelu i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn hanner olaf mis Mai 2015. |
| **Consortia addysg rhanbarthol** | Mai 2015 | Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn gweithio ochr yn ochr ag Estyn ar y prosiect hwn, ac fe gwblhawyd y gwaith maes ar gyfer yr astudiaeth hon ym mis Ionawr 2015, fel y cynlluniwyd.<br><br>Rwyf wedi ymroi i gyhoeddi fy adroddiad ar yr un pryd ag adroddiad cylch gwaith Estyn erbyn diwedd mis Mai 2015. |
| **Diogelu mewn llywodraeth leol** | Mehefin 2015 | Mae canfyddiadau o'r gwaith hwn eisoes wedi cael eu hadrodd yn ôl i gynghorau lleol. Mae adroddiad cryno cenedlaethol yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd a bwriedir ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2015. |
| **Gwasanaethau Orthopedig** | Mehefin 2015 | Nodais yn flaenorol fy mod yn anelu i gyhoeddi'r adroddiad hwn ym mis Mawrth 2015. Fodd bynnag, rwyf wedi ymestyn agwedd leol y gwaith hwn drwy gynhyrchu crynodeb o ddata ar gyfer pob bwrdd iechyd unigol. Bu'r dull hwn o gymorth er mwyn rhoi gwybodaeth fanwl i'r byrddau iechyd ynghylch a oes angen iddynt dargedu eu sylw at wella darpariaeth y gwasanaeth orthopedig. O ganlyniad i hyn, fodd bynnag, gohiriwyd y gwaith o gwblhau adroddiad cryno Cymru gyfan. Bydd yr adroddiad cenedlaethol yn barod i'w glirio yn fuan, a bwriedir ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2015. |

| Testun | Amserlen Cyhoeddi *(amcangyfrif presennol)* | Sylwebaeth |
|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru yn caffael Maes Awyr Caerdydd** | Mehefin 2015 | Mae drafftio'r adroddiad hwn yn cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd yn flaenorol, a hynny'n rhannol oherwydd pwysau penodol ar adnoddau. Rydym wedi bod yn parhau i gyfnewid gwybodaeth ag Audit Scotland mewn perthynas â'u gwaith ar gynllun Llywodraeth yr Alban i gaffael Maes Awyr Prestwick. Mae cwmpas fy astudiaeth i yn ehangach na'r gwaith a gyflawnwyd gan Audit Scotland.<br><br>Rwyf yn disgwyl dechrau clirio'r adroddiad hwn yn allanol ym mis Ebrill 2015, ac yn anelu i'w gyhoeddi yn gynnar ym mis Mehefin 2015. Fodd bynnag, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, bydd angen i reolwyr Maes Awyr Caerdydd ei hun glirio'r adroddiad, fel trydydd parti. |
| **Gwasanaethau rheilffordd** | Gorffennaf 2015 | Mae'r gwaith maes ar gyfer yr astudiaeth hon wedi'i gwblhau fel y cynlluniwyd, a'r adroddiad yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd, Rwyf yn disgwyl dechrau'r broses glirio ym mis Ebrill 2015, gyda golwg ar gyhoeddi erbyn Gorffennaf 2015. Yn ychwanegol at glirio gyda Llywodraeth Cymru, bydd angen i mi glirio'r adroddiad gydag amrywiaeth o randdeiliaid trydydd parti. |
| **Rhestrau aros y GIG a meddygaeth breifat** | Awst 2015 | Mae'n cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd yn flaenorol i gwblhau'r gwaith hwn, oherwydd cymhlethdod y data yn gysylltiedig â gweithgarwch meddygaeth breifat, a'r systemau tanategol o fewn sefydliadau'r GIG. Yn wreiddiol, roeddwn i wedi bwriadu llunio memorandwm ar gyfer y Pwyllgor. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn yn haeddu adroddiad archwilio gydag argymhellion oherwydd dyfnder y canfyddiadau. Yn fuan, bydd tîm yr astudiaeth yn dechrau drafftio'r adroddiad hwn gyda golwg ar gyhoeddi yn ystod gwyliau'r haf. |
| **Cyflawni gyda llai - gwasanaethau hamdden** | Awst 2015 | Ar gyfer yr astudiaeth hon o lywodraeth leol rwyf yn mabwysiadu dull tebyg i'm hadroddiad ym mis Hydref 2014 ar wasanaethau iechyd amgylcheddol. Mae'r gwaith ar hyn o bryd yn y cyfnod gwaith maes ac yn mynd rhagddo fel y cynlluniwyd ar y cyfan. |

| Testun | Amserlen Cyhoeddi *(amcangyfrif presennol)* | Sylwebaeth |
|---|---|---|
| **Annibyniaeth pobl hŷn** | Medi 2015 | Datblygwyd yr astudiaeth llywodraeth leol hon ar y cyd â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac AGGCC. Mae'r gwaith ar hyn o bryd yn y cyfnod gwaith maes ac yn mynd rhagddo fel y cynlluniwyd ar y cyfan. |
| **Darlun o'r gwasanaethau cyhoeddus** | Hydref 2015 | Rwyf yn bwriadu llunio adroddiad Darlun o'r Gwasanaethau Cyhoeddus pellach, gan gynnwys sylwebaeth bellach ar berfformiad gwasanaethau a pherfformiad ariannol ar draws y sector cyhoeddus. Mae gwaith ar y prosiect hwn eisoes wedi dechrau. |
| **Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru** | Hydref 2015 | Bydd gwaith maes ar gyfer yr astudiaeth hon yn dechrau ym mis Ebrill 2015, er bod yr astudiaeth yn adeiladu'n rhannol ar dystiolaeth a gasglwyd eisoes wrth gyflawni fy ngwaith archwilio ariannol arferol. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion archwilio** | Rhagfyr 2015 | Rydym wedi casglu rhywfaint o wybodaeth gychwynnol i gefnogi'r adolygiad hwn, gyda golwg ar gyflawni gwaith maes pellach yn nhymor yr haf 2015. Rwyf yn rhagweld y gallai'r adroddiad hwn, a fydd hefyd yn ystyried ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor, wedyn gefnogi unrhyw adroddiadau posibl gan y Pwyllgor ar brosiectau etifeddol cyn diwedd y pedwerydd Cynulliad. |
| **Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio** | I'w gadarnhau | Fel y nodais wrth roi'r newyddion diweddaraf ym mis Rhagfyr 2014, am resymau'n ymwneud yn benodol â'r prosiect mae'r amserlen ar gyfer cyhoeddi yn ansicr, er bod yr adroddiad yn cael ei glirio ar hyn o bryd. |
| **Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru** | I'w gadarnhau | Fel y nodais wrth roi'r newyddion diweddaraf ym mis Rhagfyr 2014, am resymau'n ymwneud yn benodol â'r prosiect mae'r amserlen ar gyfer cyhoeddi yn ansicr, er bod yr adroddiad yn cael ei glirio ar hyn o bryd. |
| **Rheoli risg llifogydd ac erydiad** | I'w gadarnhau | Mae cwmpas ac amserlen gynlluniedig y gwaith hwn yn cael eu penderfynu'n derfynol ar hyn o bryd, ac mae'r gwaith yn debygol o ganolbwyntio ar faterion sy'n gysylltiedig â llifogydd arfordirol. |

| Testun | Amserlen Cyhoeddi *(amcangyfrif presennol)* | Sylwebaeth |
|---|---|---|
| **Ymyriad cynnar a newid ymddygiad y cyhoedd** | I'w gadarnhau | Yn y tymor byr, bydd llunio adroddiad newydd sy'n rhoi darlun o'r gwasanaethau cyhoeddus yn cael blaenoriaeth dros y gwaith hwn. Fodd bynnag, mae'r adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus yn debygol o fyfyrio ar y themâu hyn mewn rhyw fodd neu'i gilydd. Bydd staff Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn archwilio cyfleoedd i fwrw ymlaen â gwaith yn y maes hwn yn rhan o'n rhaglen cyfnewid arfer da. |
| **Ymyriadau gan Lywodraeth Cymru mewn llywodraeth leol** | I'w gadarnhau | Mae cynlluniau ar gyfer y gwaith hwn yn cael eu hailystyried yn sgil yr adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o ymyriad Ynys Môn, ac i ystyried unrhyw oblygiadau ehangach sy'n codi o'r rhaglen diwygio llywodraeth leol. |
| **Caffael cyhoeddus a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol** | I'w gadarnhau | Mae cynlluniau'n dal i gael eu datblygu ar gyfer y gwaith hwn. Wrth gadarnhau yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2015 y byddai'r astudiaeth hon yn cael ei chynnwys yn fy rhaglen waith, nodais ei bod hi'n annhebygol y byddai'r gwaith yn dechrau cyn chwarter olaf y flwyddyn ariannol hon. |